Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Hydref 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12456

25(v4)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd cwestiynau 1-2 a 4-10. Ni ofynnwyd cwestiwn 3. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.02

Gwnaeth Huw Irranca-Davies ddatganiad am: Lansiad 'Pecyn Teithio Llesol i'r Ysgol' y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol.

Gwnaeth Cefin Campbell ddatganiad am: Llongyfarch y chwaraewr dartiau o Gymru, Jonny Clayton, a lwyddodd i ennill pencampwriaeth y 'World Grand Prix' ar y penwythnos.

Gwnaeth Altaf Hussain ddatganiad am: Cefnogi Diwrnod Arthritis y Byd.

Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 15.08

NDM7804 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Davies (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn lle Jayne Bryant (Llafur Cymru)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.08 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd.

5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Manteision cymunedol prosiectau ynni

Dechreuodd yr eitem am 15.19

NDM7794 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi pwysigrwydd ynni adnewyddadwy wrth geisio lleihau ein hôl-troed carbon.

2. Yn cytuno bod angen sicrhau fod pob datblygiad ynni yn dod a budd i'r cymunedau lle'u lleolir.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru, unai drwy reoliadau neu ddeddfwriaeth newydd, i fynnu bod datblygwyr prosiectau ynni yn gorfod profi budd cymunedol eu datblygiadau arfaethedig drwy orfod cynnal asesiad effaith cymunedol a chyflwyno cynllun budd cymunedol fel rhan o'r broses gynllunio.

Cyd-gyflwynwyr

Adam Price

Altaf Hussain

Delyth Jewell

Heledd Fychan

Janet Finch-Saunders

Luke Fletcher

Sioned Williams

Tom Giffard

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

6 Dadl Plaid Cymru - Y sector ynni a'r argyfyngau hinsawdd a natur

Dechreuodd yr eitem am 16.08

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM7803 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) datganiad y Senedd o argyfwng hinsawdd yn 2019, ac argyfwng natur yn 2021;

b) y bydd 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yn cyfarfod yr Hydref hwn i gytuno ar gamau gweithredu cydgysylltiedig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;

c) y bydd 15fed cyfarfod Cynhadledd y Partïon (COP15) i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol (CBD) yn cyfarfod y gwanwyn nesaf i gytuno ar fframwaith bioamrywiaeth byd-eang;

d) targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd allyriadau carbon sero-net erbyn 2050;

e) cred y Senedd y dylid sicrhau cydraddoldeb rhwng y camau a gymerir i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r rhai a gymerir i fynd i'r afael â'r argyfwng natur (NDM7725);

f) bod y Senedd wedi pasio NDM7725 yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gofyniad sy'n rhwymo mewn cyfraith i wrthdroi colli bioamrywiaeth drwy dargedau statudol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) geisio datganoli rheolaeth Ystad y Goron a'i hasedau yng Nghymru yn llawn i Lywodraeth Cymru;

b) ceisio datganoli pwerau ynni yn llawn;

c) gwneud y mwyaf o botensial Cymru ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy drwy sefydlu cwmni datblygu ynni a gefnogir gan y wladwriaeth;

d) datblygu gweithlu sero-net yng Nghymru drwy hwyluso ymdrechion traws-sector i uwchsgilio gweithwyr yn y sector ynni;

e) hwyluso'r gwaith o ehangu'r pŵer adnewyddadwy sy'n angenrheidiol i gwrdd â sero-net drwy fuddsoddi'n helaeth mewn uwchraddio grid trydan Cymru;

f) datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer porthladdoedd Cymru, a cheisio cyllid pellach gan Lywodraeth y DU ar gyfer seilwaith porthladdoedd yng Nghymru i gefnogi'r sector gwynt ar y môr sy'n datblygu;

g) datblygu a gweithredu cynllun datblygu morol i roi sicrwydd i ddatblygwyr ynni drwy arwain y gwaith o nodi datblygiadau adnewyddadwy i ffwrdd o'r ardaloedd mwyaf sensitif o safbwynt ecolegol.

NDM7725 - Dadl gan Wrthblaid ar 30 Mehefin 2021

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
14	0	42	56

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflawni prosiectau ynni mawr i Gymru;

b) croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £90 miliwn i brosiectau sero-net arloesol yng Nghymru;

c) adeiladu ar y ffaith bod diwydiant a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £40 miliwn i gefnogi'r clwstwr o ddiwydiannau yn ne Cymru i bontio i sero net;

d) cydnabod bod Llywodraeth y DU wedi darparu £4.8 miliwn, yn amodol ar achos busnes a chymeradwyaethau eraill, i gefnogi datblygiad hwb hydrogen Caergybi;

e) yn croesawu Cronfa Bwyd Môr y DU, sydd werth £100 miliwn, a gynlluniwyd i lefelu cymunedau arfordirol ledled y DU, a gweithio i weithredu yn hytrach nag oedi cyn creu porthladd rhydd yng Nghymru;

f) gwneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy drwy sefydlu pecyn o gymorth ar gyfer buddsoddiad preifat mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy;

g) hwyluso goruchafiaeth gynyddol ynni adnewyddadwy drwy roi mwy o frys ar sicrhau y gall seilwaith ddarparu ar gyfer galw;

h) datblygu a gweithredu cynllun datblygu morol;

i) creu 15,000 o swyddi glas/gwyrdd newydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
15	0	41	56

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Gwelliant 2 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cadarnhau ei hymrwymiad i'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn Natganiad Silesia i gefnogi gweithwyr drwy drosglwyddo teg i net sero.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) chwarae ei rhan i alluogi trawsnewid ein system ynni i gadw manteision economaidd a chymdeithasol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng nghymunedau Cymru.

b) cynyddu capasiti cynhyrchu ynni sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol.

c) cefnogi porthladdoedd Cymru i sicrhau eu bod yn gallu buddsoddi i sicrhau'r manteision lleol mwyaf posibl o ddatblygu cynhyrchu ynni morol.

d) diogelu bioamrywiaeth morol tra'n hwyluso'r defnydd o dechnoleg ynni morol, gan gynnwys drwy ddarparu canllawiau ar gyfer deall y lleoliadau mwyaf addas.

Yn galw ar arweinwyr byd-eang i ddefnyddio 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd i ymrwymo i roi terfyn ar y defnydd o lo wrth gynhyrchu ynni.

Datganiad Silesia (Saesneg yn unig)

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
43	0	13	56

Derbyniwyd gwelliant 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) datganiad y Senedd o argyfwng hinsawdd yn 2019, ac argyfwng natur yn 2021;

b) y bydd 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yn cyfarfod yr Hydref hwn i gytuno ar gamau gweithredu cydgysylltiedig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;

c) y bydd 15fed cyfarfod Cynhadledd y Partïon (COP15) i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol (CBD) yn cyfarfod y gwanwyn nesaf i gytuno ar fframwaith bioamrywiaeth byd-eang;

d) targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd allyriadau carbon sero-net erbyn 2050;

e) cred y Senedd y dylid sicrhau cydraddoldeb rhwng y camau a gymerir i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r rhai a gymerir i fynd i'r afael â'r argyfwng natur (NDM7725);

f) bod y Senedd wedi pasio NDM7725 yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gofyniad sy'n rhwymo mewn cyfraith i wrthdroi colli bioamrywiaeth drwy dargedau statudol.

2. Yn cadarnhau ei hymrwymiad i'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn Natganiad Silesia i gefnogi gweithwyr drwy drosglwyddo teg i net sero.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) chwarae ei rhan i alluogi trawsnewid ein system ynni i gadw manteision economaidd a chymdeithasol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng nghymunedau Cymru.

b) cynyddu capasiti cynhyrchu ynni sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol.

c) cefnogi porthladdoedd Cymru i sicrhau eu bod yn gallu buddsoddi i sicrhau'r manteision lleol mwyaf posibl o ddatblygu cynhyrchu ynni morol.

d) diogelu bioamrywiaeth morol tra'n hwyluso'r defnydd o dechnoleg ynni morol, gan gynnwys drwy ddarparu canllawiau ar gyfer deall y lleoliadau mwyaf addas.

4. Yn galw ar arweinwyr byd-eang i ddefnyddio 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd i ymrwymo i roi terfyn ar y defnydd o lo wrth gynhyrchu ynni.

NDM7725 - Dadl gan Wrthblaid ar 30 Mehefin 2021

Datganiad Silesia (Saesneg yn unig)

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
56	0	0	56

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

7 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.03 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 17.13

Crynodeb o Bleidleisiau

8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.16

NDM7795 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cyflawni'r weledigaeth: codi'r gwastad yn y cymoedd

Daeth y cyfarfod i ben am 17.46

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Hydref 2021